

**BWRDD
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS
GWYNEDD AC
YNYS MÔN**



Dydd Mercher, 20 Medi 2023

14:00- 16:30

Zoom

Aelodau presennol:	
Enw	Sefydliad
Aled Jones-Griffith (AJG) - Cadeirydd	Grŵp Llandrillo Menai
Dylan Williams (DW)	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Llinos Medi (LIM)	Cyngor Sir Ynys Môn
Geraint Owen (GO)	Cyngor Gwynedd
Cyng. Dyfrig Siencyn (DS)	Cyngor Gwynedd
Dafydd Gwynne (DG)	Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Euros Jones (EJ)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Emyr Williams (EW)	Parc Cenedlaethol Eryri
Justin Hanson (JH)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Bethan Russell Williams (BRW)	Mantell Gwynedd
Glyn Jones (GJ)	Llywodraeth Cymru
Lyndsey Campbell-Williams (LC-W)	Medrwn Môn
Tracey Williams (TW)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Nia Williams (NW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Andrew Edwards (AE)	Prifysgol Bangor

Yn mynychu:	
Sandra Thomas (ST)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Gwenan Pritchard (GP)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Mike Corcoran	Rhwydwaith Cyd gynhyrchu Cymru
Iona Hughes	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ena Lloyd	Rhwydwaith Cyd gynhyrchu Cymru

Ymddiheuriadau:	
Gillian Jones (GJ)	Gwasanaeth Prawf
Catrin Thomas (CT)	Gwasanaeth Prawf
Llinos Davies (LID)	Heddlu Gogledd Cymru
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Cyngor Gwynedd

Pwyntiau Gweithredu

1. **Prosiect Niwbwrch** – DW a EJ i gael sgwrs pellach tu allan i'r cyfarfod.
2. **Siarter Teithio Llesol** – Tîm Cefnogi i ychwanegu fel eitem ar Agenda mis Rhagfyr.
3. **Adroddiad Blynyddol Drafft 2022-23** - Tîm Cefnogi i fwrw ymlaen i symud ymlaen i ddylunio a cyhoeddi.
4. **Gweithdy Cynllun Llesiant 2023-2028** - Tîm Cefnogi i rannu drafft y cynlluniau cyflawni i Aelodau'r Bwrdd yn ystod mis Hydref, 2023.

Cofnod o'r drafodaeth

Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1	<p>Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod a chroesawyd pawb i'r cyfarfod.</p>		
2	<p>Eitem Gwadd - Prosiect Niwbwrch, Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Cafwyd gyflwyniad gan Euros Jones yn egluro a rhoi cyd-destun i'r prosiect.</p> <p>Nodwyd y cynnig i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddewis lleoliad lle gall y BGC dreialu dull gwahanol o weithio gyda chymuned, lle gellir dysgu gwersi a'u cymhwyso fel eu bod yn briodol mewn lleoliadau eraill, lle na all unrhyw sefydliad unigol wneud gwahaniaeth ar ei ben ei hun. • Canolbwyntio ar ardal Niwbwrch, a rhoi gwahoddiad i aelodau'r BGC arwain ar ddigwyddiad cymunedol penodol, drwy gydweithio gyda Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a phartneriaid eraill. • Rhoi cyfle i'r BGC fabwysiadu dull trawsnewidiol o fynd i'r afael â materion ar y cyd a amlygwyd gan yr Asesiad Llesiant. Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru eisoes yn gweithio'n agos gyda'r BGC ac wedi bod yn cefnogi CNC yn Niwbwrch. Yn yr achos hwn, maent yn argymhell hwyluso sesiwn lle mae'r BGC, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, a'r trydydd sector, ac arweinwyr cymunedol, yn cael eu dwyn ynghyd i weithio ar faterion penodol sy'n effeithio ar y gymuned ac yn cyd-fynd ag amcanion Llesiant Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn. Y cynnig yw bod sesiwn yn mynd i'r afael â'r mater a godwyd amlaf sef trafndiaeth a mynediad <p><u>Yr argymhellion / penderfyniadau a geisir heddiw gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</u></p>		

	<p>1. Cytuno i dreialu dull cydweithredol i fynd i'r afael â mater arwyddocaol ond cyffredin ar lefel gymunedol.</p> <p>2. Cytuno i dreialu digwyddiad yn Niwbwrch a sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i arwain y gwaith.</p> <p>3. Cytuno i rannu'r allbynnau a'r hyn a ddysgwyd gyda Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill Cymru.</p> <p>4. Ystyried defnyddio'r un dull i ddatblygu ffyrdd cydweithredol o ymgysylltu â phobl a buddion cymunedol yn Niwbwrch ac mewn lleoliadau eraill.</p> <p><u>Penderfyniad</u> – Cytunwyd i gefnogi'r prosiect. Nodwyd dymuniad DW i gael sgwrs pellach gyda CNC tu allan i'r cyfarfod.</p>	DW a EJ	
3	<p>Cofnodion (i'w cymeradwyo): Cyfarfod y Bwrdd 14/6/23</p> <p>Cytunwyd ar gywirdeb y cofnodion a nodwyd bod y pwyntiau gweithredu wedi eu cwblhau.</p> <p>Nodwyd bydd eitem Siarter Teithio Llesol yn cael ei drafod yng nghyfarfod Rhagfyr yn hytrach na heddiw.</p>	Tîm Cefnogi	
4	<p>Adroddiad Blynyddol Drafft 2022-23</p> <p>Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol drafft wedi ei gylchredeg ac ei fod eisoes wedi ei drafod ym Mhwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn ac Phwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd cyn yr Haf.</p> <p>Nodwyd un sylwad o gywirdeb gramadeg.</p> <p>Cymeradwywyd y Cynllun a chytunwyd i fynd ymlaen i ddylunio a cyhoeddi.</p>	Tîm Cefnogi	
5	<p>Gweithdy Cynllun Llesiant 2023-2028</p> <p>Eglurwyd bod y rhan yma o'r cyfarfod wedi ei neilltuo ar gyfer cynnal gweithdy i edrych ar lunio cynlluniau cyflawni ar gyfer y tri amcan o'r Cynllun Llesiant. Nodwyd bod un gweithdy wedi cael ei gynnal gyda detholiad bychan o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.</p> <p>Hwyluswyd y gweithdy ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Rhwydwaith Cydgyhyrchu Cymru gan ddefnyddio egwyddorion Dyfodol Cyflawni (Future's Thinking). Nod y Gweithdy yw i lunio Cynllun Cyflawni i'r Cynllun Llesiant a gosod rhaglen waith i'r 12 mis nesaf. Byddwn hefyd yn sicrhau bod tueddiadau'r dyfodol wedi'u hystyried yn y cynllun llesiant, a bod y camau gweithredu a ddatblygir yn gallu gwrthsefyll y tueddiadau hyn yn y dyfodol. Y diben yw wynebu cyfleoedd a bygythiadau nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y cynllun presennol, i'w wneud yn fwy gwydn mewn ansicrwydd/heriau yn y dyfodol.</p> <p>Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd ystyried o flaen llaw a meddwl sut y gall tueddiadau'r dyfodol effeithio ar y 3 amcan yn y Cynllun Llesiant gan roi ystyriaeth i'r camau gweithredu a nodwyd o dan bob amcan. Defnyddiwyd 'Mural Board' rhyngweithiol i gofnodi ymatebion.</p> <p>Rhannwyd amserlen arfaethedig am gymeradwyaeth y cynlluniau cyflawni yn ystod yr Hydref.</p> <p>Tîm Cefnogi i rannu drafft y cynlluniau cyflawni i Aelodau'r Bwrdd yn ystod mis Hydref, 2023.</p>	Tîm Cefnogi	Hydref, 2023